



Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru

Further Mathematics Support Programme Wales

Sylwadau gan fyfyrwyr ac athrawon sydd wedi defnyddio ein hadnoddau:

Hyfforddiant

- ☞ Fel ysgol rydym yn ddiolchgar iawn i'r RhGMBC am y gwaith y maent wedi bod yn ei wneud gyda'n myfyrwyr i'w galluogi i astudio mathemateg ar lefel bellach. Mae'r addysgu, cefnogi ac adolygu wedi bod yn ddefnyddiol iawn ac wedi bod yn llwyddiannus gyda gradd A yn FP1 *Pennaeth Mathemateg, Ysgol Gyfun Tregŵyr*.

Dysgu Proffesiynol

- ☞ Desmos: Ffantastig, addysgiadol iawn. Y cyflymder iawn. Roeddwn i wir yn hoffi'r natur ymarferol hefyd. Ardderchog! Mewnwelediad gwych i'r defnydd o DESMOS yn bersonol ac yn yr ystafell ddosbarth. *Jenitta Sage, Ysgol y Bont-faen*
- ☞ Rydym wedi cael hyfforddiant pwrpasol ar bynciau yr ydym wedi gofyn amdanynt ac rydym wedi gallu hyfforddi ein holl staff. *Emma Pugh Ysgol Gyfun Porthcawl*

Adnoddau

- ☞ Mae'r Cynllun Gwaith yn adlewyrchu profiad y cyfranwyr a hefyd yn darparu adnoddau i alluogi athrawon i ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth eu hunain. *Syra Saddique, CBAC*
- ☞ Mae [Y Cynllun Gwaith] yn wych, hoffwn ddiolch ar fy rhan i a fy adran am yr holl waith caled a'r gefnogaeth a ddarparwyd hyd yn hyn! A gaf fi hefyd achub ar y cyfle i barhau i ddiolch i chi a'ch tîm am yr holl adnoddau a'r ymdrechion a wnaed. Mae wedi bod yn sylfaen i ni wrth weithredu'r maes llafur newydd hwn! *Isobella Birch, Ysgol Uwchradd Penarlâg*
- ☞ Mae [Y Papurau Ymarfer] yn wych ac wedi arbed llawer o amser i mi, gan fy mod yn mynd i gynhyrchu fy rhai fy hun. Diolch eto am eich holl waith yn cynhyrchu'r adnoddau hyn i ni. *Judith Maddison, Ysgol Bro Gwaun*
- ☞ Roedd adnoddau [Y fideos wyneb i waered] yn amhrisiadwy dros y cyfnod clo, roedd disgyblion yn elwa o gael mynediad at yr adnoddau o ansawdd hyn i gefnogi'r addysgu ar-lein. Nia Jones, Pennaeth Mathemateg Bro Teifi Casgliad gwych o weithgareddau [Desmos] ac yn arbennig o ddefnyddiol i mi yn helpu i mi ei ddysgu am y tro cyntaf, ac yn enwedig yn y flwyddyn hon o ddysgu cyfunol. *Mr. Barry Hardiman, Ysgol Uwchradd Llandrindod*

Cyfoethogi

- ☞ Roeddwn i eisiau dweud diolch yn fawr iawn am yr holl gymorth a chefnogaeth a ddarparwyd gennych drwy sesiynau MAT y RhGMBC, eisteddais y prawf MAT heddiw ac roedd y sesiynau a ddarparwyd gennych wedi fy helpu'n fawr i baratoi ar gyfer y prawf.
- ☞ Diolch yn fawr iawn am y sesiynau STEP gwych, rydw i wir wedi gweld y profiad cyfan yn hynod ddefnyddiol, ac yn wir yn teimlo fy mod i'n dechrau clicio gyda'r cwestiynau! Rwy'n falch iawn fy mod wedi derbyn pob un o'm 5 cynnig, gan gynnwys un i ddarllen mathemateg yng ngholeg Homerton, Caergrawnt. Byddwn wrth fy modd yn estyn diolch i bawb sydd wedi helpu gyda'r sesiynau hyn, gan na allaf bwysleisio pa mor wych mae pob sesiwn wedi bod.
- ☞ Cynlluniau Peilot Cynradd: roedd yn anhygoel ac yn hwyl.
- ☞ Roeddwn i eisiau dweud diolch am y [Sgyrsiau Gyrfaoedd] gwych y bu lfor yn garedig iawn eu cyflwyno i'n myfyrwyr yn ystod y cyfnod heriol hwn. Fe wnaeth i'r disgyblion feddwl pam fod Mathemateg yn bwysig a sut mae eu gwersi Mathemateg yn berthnasol i gymaint o wahanol feysydd. Mae'r disgyblion wedi parhau i siarad am y sesiynau ar ôl y digwyddiadau sy'n arwydd cadarnhaol. Diolch eto Emma Topliss Rheolwr Dysgu - Adran Fathemateg, Ysgol Uwchradd Ysgol Rhosnesni, Wrecsam
- ☞ Dosbarthiadau meist: Gweld meysydd a ffyrdd y gellir defnyddio mathemateg, sy'n arwain at fathau diddorol ac unigryw o fathemateg nad wyf erioed wedi dod ar eu traws o'r blaen.